UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad


Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU


Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 3 Rhagfyr 2025 i'r cyfeiriad hwn:

Tîm Polisi ADY
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CP10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: YmgynghoriadCasgliadauDataYsgolion@llyw.cymru

## Pwy ydych chi

Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi isod.

| | |
|---|---|
| Dysgwr | ☐ |
| Rhiant neu ofalwr (defnyddiwyd ‘rhiant’ fel term llaw fer i gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni sy'n mabwysiadu, llys-rieni, gofalwyr sy’n berthnasau a theidiau a neiniau, gwarcheidwaid) | ☐ |
| Y gweithlu addysg | ☐ |
| Awdurdod lleol | ☐ |
| Cyflenwr | ☐ |
| Ymarferydd iechyd | ☐ |
| Trydydd sector | ☐ |
| Academydd neu ymchwilydd | ☐ |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) UCAC – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | ✓ |

## Cwestiynau

### Penderfyniadau ADY

**Cwestiwn 1**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw ysgol neu awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad ffurfiol am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer dysgwr yn ystod y 12 mis diwethaf?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Mae'r rhesymau a nodir dros y newidiadau yn rhai clodwiw ac os bydd y penderfyniad yn arwain at ddefnydd mwy cytbwys a gwell o ddata, er budd unigolion, yna mae'n rhaid cytuno gyda'r cynnig. Fodd, bynnag, mae'n rhaid gwneud yn siŵr nad yw'r hyn a gyngir yn mynd i ychwanegu at lwyth gwaith staff mewn ysgolion.**

### Cynlluniau cymorth

**Cwestiwn 2**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ar anghenion a darpariaeth dysgwyr sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru sydd â chynllun addysg, iechyd a gofal (EHC)?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Mae gweithio ar draws ffiniau yn gallu cyflwyno heriau penodol. Mae'n bwysig bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau tegwch. Os yw casglu'r data yn golygu bod Cymru'n cael gwell chwarae teg, yna mae'n bwysig bod y data'n cael ei gasglu. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn nad yw athrawon yng Nghymru yn gorfod ysgwyddo llwyth gwaith ychwanegol yn ddiangen.**

### Meysydd angen

**Cwestiwn 3**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn am y 4 maes angen (fel yr amlinellir yn y Cod ADY) ar gyfer dysgwyr ag ADY?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ymddengys fod y pedwar maes yn cwmpasu'r holl feysydd y mae angen rhoi sylw iddynt, ond mae angen sicrhau ymgysylltiad trwyadl a gwrthrychol gyda'r holl randdeiliaid, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw faes arall y mae angen rhoi sylw iddo.** |

**Cwestiwn 4**: A oes gennych unrhyw farn ar y rhestr o ddiagnosis meddygol, amhariadau dysgu ac anghenion dysgu a gesglir ar hyn o bryd yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) am ddysgwyr ag ADY?

| |
|---|
| **Ymddengys yn rhestr gynhwysfawr. A fydd unrhyw hyblygrwydd a chyfle i ychwanegu/dileu a diwygio yn ôl yr angen?** |

**Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)**

**Cwestiwn 5**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY wedi'i sicrhau gan fwrdd iechyd lleol (fel y nodir yn eu cynllun datblygu unigol (CDU))?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'n bwysig cael darlun clir o'r hyn sy'n digwydd a beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY. Dylai gweld darlun clir a chyflawn o'r ddarpariaeth fod yn gymorth wrth ystyried sut mae gwella darpariaeth i ddysgwyr ADY a galluogi ymateb rhagweithiol i'r anghenion.** |

**Cwestiwn 6**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw dysgwr ag ADY eisiau i rywfaint neu'r cyfan o'i DDdY gael ei darparu yn y Gymraeg (fel y cofnodir yn ei CDU)?

| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Yn anffodus, mae gormod o enghreifftiau o ddysgwyr ADY sy'n dymuno cael darpariaeth Gymraeg yn methu â chael y ddarpariaeth honno. Mae angen mynd i'r afael â hyn a dylid sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at ddarpariaeth yn yr iaith y mae'n ei ffafrio. Mae'n bwysig bod rhieni a dysgwyr yn gallu nodi ym mha iaith y byddent yn hoffi derbyn y ddarpariaeth.**

**Cwestiwn 7**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw dysgwr ag ADY yn derbyn DDdY yn y Gymraeg (lle mae hyn yn ofynnol fel y cofnodir yn ei CDU)?

| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Yn anffodus, mae gormod o enghreifftiau o ddysgwyr ADY sy'n dymuno cael darpariaeth Gymraeg yn methu â chael y ddarpariaeth honno. Mae angen mynd i'r afael â hyn a dylid sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at ddarpariaeth yn yr iaith y mae'n ei ffafrio. Bydd cymharu'r niferoedd sy'n dymuno cael darpariaeth Gymraeg a'r niferoedd sy'n llwyddo i dderbyn darpariaeth Gymraeg yn ddata hynod o bwysig. Y gobaith wedyn yw y gellir llenwi'r bwlch rhwng y nifer sy'n dymuno cael darpariaeth a'r nifer sydd yn cael darpariaeth Gymraeg. Mae'n bwysig bod yn rhagweithiol ynghylch y mater hwn, gan adnabod bylchau a mynd i'r afael yn bragmatig â'r bylchau hynny.**

**Cwestiwn 8**: Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru gasglu unrhyw wybodaeth arall am DDdY dysgwyr er mwyn deall yn well tegwch y cymorth a deiliannau dysgwyr?

**Byddai gwrando ar ddysgwyr, rhieni, athrawon a rhanddeiliaid yn werthfawr, gan roi cyfle iddynt nodi'n union beth yw'r heriau. Mae angen cymhariaeth fanwl ar y**

| |
|---|
| **ddarpariaeth – o ran cysondeb neu ddiffyg cysondeb ALl, cyfrwng iaith, oedran y plant, natur y cyflyrau.** |

**Dysgwyr ag ADY mewn dosbarthiadau arbennig**

**Cwestiwn 9**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw dysgwr ag ADY mewn lleoliad prif ffrwd yn cael ei addysgu mewn dosbarth arbennig?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ar y cyfan rydym yn cytuno gyda'r cynnig, ond er mwyn gallu gwneud defnydd buddiol o ddata o'r natur yma, mae hi'n bwysig bod cysondeb ac eglurder ynghylch diffiniadau. Dylid nodi'n glir beth a olygir wrth y term 'dosbarth arbennig', er mwyn osgoi unrhyw amwysedd ac anghysondeb. Dylid hefyd sicrhau nad yw casglu'r data yn ychwanegu at lwyth gwaith.** |

**Cwestiwn 10**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch faint o amser y mae dysgwr ag ADY yn ei dreulio mewn dosbarth arbennig?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Rydym yn cytuno gyda'r cynnig, ar yr amod bod y diffiniad o'r term 'dosbarth arbennig' yn gwbl glir. Mae'n bwysig bod cysondeb yn y wybodaeth a gesglir.** |

**Gwybodaeth am ddosbarthiadau arbennig**

**Cwestiwn 11**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar nifer y dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliad prif ffrwd (i ategu'r data a gasglwyd eisoes ar ddosbarthiadau arbennig dynodedig gan awdurdodau lleol)?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Nid ydym yn anghytuno â chael y data wrth law, ond nid ydym am gynyddu llwyth gwaith athrawon mewn unrhyw fodd.** |

**Cwestiwn 12**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion (i ategu'r data a gasglwyd eisoes ar nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau arbennig dynodedig gan awdurdodau lleol)?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Gweler y sylwadau ar gwestiwn 11.** |

**Amseroldeb penderfyniadau ADY ac adolygiadau CDU**

**Cwestiwn 13**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar gyfran y penderfyniadau ADY a wnaed gan ysgolion ac awdurdodau lleol o fewn yr amserlenni statudol yn ystod y 12 mis diwethaf (lle nad yw eithriadau'n gymwys)?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ymddengys y cynnig yn un digon rhesymol, ond mae'n bwysig bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno o fewn cyd-destun. Weithiau mae yna resymau dilys pam na wnaed penderfyniad o fewn yr amserlen statudol, dro arall mae hi'n iawn cwestiynu pam na wnaed penderfyniad o fewn amser penodol. Os cafwyd oedi diangen, mae'n bwysig holi cwestiynau a sicrhau atebolrwydd. Fel a nodwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol, mae'n bwysig nad yw casglu data yn ychwanegu at lwyth gwaith staff mewn ysgolion.** |

**Cwestiwn 14**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar nifer yr eithriadau i'r amserlenni statudol perthnasol yn ystod y 12 mis diwethaf?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Mae angen bod yn dryloyw ac yn onest wrth gasglu data ac mae'n bwysig gweld beth yw'r sefyllfa real, ond nid ydym am ychwanegu at lwyth gwaith staff mewn ysgolion.**

**Cwestiwn 15**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar gyfran y CDUau a adolygwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn y cyfnod statudol diweddaraf o 12 mis?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Mae'n dibynnu pam y cesglir y data. Os cesglir y data ar gyfer gwella sefyllfa dysgwyr ag ADY, gallwn gytuno. Mae'n rhaid wrth reswm adeiladol a fydd yn arwain at wella sefyllfa ac amodau i athrawon a dysgwyr ADY.**

**Cydlynwyr ADY**

**Cwestiwn 16**: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw Cydlynydd ADY (CADY) mewn lleoliad ar yr uwch dîm arwain ai peidio?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Mae'n bwysig gweld y darlun llawn a sicrhau bod CADY yn cael pob chwarae teg. Rydym yn ymwybodol o lwyth gwaith affwysol rhai Cydlynwyr ADY ac mae'n bwysig sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i amodau gwaith y Cydlynwyr hyn.**

**Goblygiadau i'r gweithlu**

**Cwestiwn 17**: Pa effaith fydd y newidiadau arfaethedig i ddata ADY yn ei chael ar y gweithlu, gan gynnwys unrhyw effaith ar lwyth gwaith?

**Diddorol yw nodi un frawddeg yn y ddogfen ymgynghori – 'Wrth ddatblygu'r newidiadau arfaethedig i gasglu data ADY, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu lleihau'r baich ychwanegol ar y gweithlu addysg..' Mawr obeithiwn fod y flaenoriaeth hon wedi'i gwireddu. Mae'n hollbwysig nad yw'r gweithlu yn wynebu unrhyw waith ychwanegol yn sgil y newidiadau arfaethedig. Os oes angen data ychwanegol, neu os rhagwelir bod y data newydd y gofynnir amdano yn mynd i ychwanegu at lwyth gwaith, yna mae'n rhaid sicrhau y diddymir elfen arall o waith athrawon.**

**Cyffredinol**

**Cwestiwn 18**: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y data y dylid eu cofnodi neu y dylem eu casglu i fonitro a deall effeithiolrwydd y system ADY wrth gefnogi dysgwyr ag ADY?

**Mae'n bwysig mabwysiadu dull effeithiol, hawdd ei weinyddu o gasglu data.**

**Gorfodol**

**Cwestiwn 19**: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y data newydd arfaethedig am y system ADY ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**Mawr obeithiwn y bydd unrhyw newid yn arwain at fwy o degwch i ddysgwyr ag ADY sy'n dymuno derbyn darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn teimlo'n angerddol fod angen sicrhau tegwch i bawb o fewn y system a sicrwydd bod y Gymraeg yn cael ei thrin gyda'r parch dyledus.**

**Cwestiwn 20**: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu’r data newydd arfaethedig am y system ADY er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu
- nad ydynt yn cael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Yr hyn sy’n bwysig yw bod mwy na chasglu data yn digwydd. Y rhan hawdd o’r broses yw casglu gwybodaeth, y rhan heriol ond hollbwysig yw gweithredu ar y wybodaeth sydd wedi ei chasglu. Ni allwn orbwysleisio pa mor allweddol yw gweithredu.**

**Cwestiwn 21:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐